



Cam 2: Tyfu ein Cynhwysion

Amcanion dysgu

- I ddarganfod a disgrifio'r amodau sydd eu hangen ar blanhigion i dyfu ac i gadw'n iach
- I dyfu cynhwysion o hadau

Trosolwg cam

Yn y cam hwn, mae'r plant yn dysgu'r amodau sydd eu hangen i blanhigion dyfu. Mae hyn yn cael ei ymestyn i ddysgu o ble mae cynhwysion pizza yn dod, eu tyfu ac arsylwi pa blanhigion sy'n tyfu gyflymaf yn ystod gweithgaredd 'Y ras gynhwysion fawreddog'.

Mae rhoi'r cyfrifoldeb i'r plant am ofalu am eu cnydau eu hunain yn darparu cyfleoedd iddynt brofi heriau ffermwyr a pherchnogion busnes mewn ffordd syml iawn. Er enghraifft, os na fydd y cnydau'n tyfu, ni fydd ganddyn nhw ddigon o gynhwysion i wneud eu cynhyrchion a fydd yn eu gadael heb ddim i'w werthu.

Deunyddiau sydd eu hangen

- Hadau tomato, nionyn, roced, basil a gwenith (cysylltwch â ni yn education@nfu.org.uk os hoffech gael hadau gwenith o ffermydd ein haelodau)
- Compost
- Potiau planhigion

Nodiadau cyflwyniad

| | |
|---|---|
| Sleid 2: Beth sydd ei angen ar blanhigion? | <ul style="list-style-type: none">• Esboniwch, yn union fel bodau dynol, bod angen rhai pethau ar blanhigion er mwyn iddyn nhw dyfu a bod yn iach. Gofynnwch i'r plant a allan nhw feddwl am unrhyw bethau sydd eu hangen ar blanhigion. Creu rhestr ar y wal weithio.• Esboniwch ein bod ni'n mynd i ddysgu popeth am hyn fel y gallwn ni dyfu ein holl gynhwysion ein hunain ar gyfer ein busnesau pizzeria. |
| Sleid 3: Fferm foron | <ul style="list-style-type: none">• Rhannwch y fideo Carrot Farm i ddangos yr amodau sydd eu hangen er mwyn i foron dyfu yn y DU: https://www.youtube.com/watch?v=mRdavyBf2Gs&feature=emb_title• Gofynnwch i'r plant enwi unrhyw un o'r amodau maen nhw'n eu cofio o'r fideo a'u hychwanegu at y rhestr. |
| Sleid 4: Golau | <ul style="list-style-type: none">• Siaradwch trwy'r PowerPoint i egluro'r amodau sydd eu hangen ar blanhigion yn fwy manwl:<ul style="list-style-type: none">– Mae planhigion angen golau er mwyn tyfu a bod yn iach.– Mae planhigion yn glyfar iawn a gallant droi golau haul yn fwyd i'w hunain yn eu dail.– Mae angen golau haul arnom ni hefyd i roi Fitamin D inni a'n cadw'n iach. |

| | |
|---|---|
| <p>Sleid 5: Dŵr</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Yn union fel ni, mae angen dŵr ar blanhigion. Heb ddigon o ddŵr, ni all planhigion dyfu a bod yn iach. • Ar ddechrau bywyd planhigyn, mae angen dŵr arno i wneud iddo ddechrau tyfu i fod yn eginblanhigyn bach. • Ar ôl i'r eginblanhigyn dyfu rhai gwreiddiau, mae angen dŵr ar y planhigyn i gymryd y maetholion (pethau iach sy'n helpu'r planhigyn i dyfu) allan o'r pridd. • Mae planhigion yn glyfar iawn a gallant wneud eu bwyd eu hunain yn eu dail gan ddefnyddio golau haul a dŵr. |
| <p>Sleid 6: Dim digon o ddŵr</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Mae dŵr yn bwysig iawn i ffermwyr. Os nad oes gennym ddigon o law, ni fydd eu cnydau'n tyfu'n iawn i wneud ein bwyd. |
| <p>Sleid 7: Gormod o ddŵr</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Gofynnwch i'r plant beth maen nhw'n meddwl fydd yn digwydd os oes gan blanhigion ormod o ddŵr? • Mae gormod o ddŵr hefyd yn broblem fawr i ffermwyr. • Gall llifogydd neu lawiad trwm effeithio ar iechyd pridd ffermwr wrth iddo olchi i ffwrdd rhai o'r gronynnau pridd a'r maetholion sydd eu hangen ar blanhigion i dyfu a bod yn iach. |
| <p>Sleid 8: Tymheredd addas</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Gofynnwch i'r plant feddwl sut maen nhw'n teimlo os ydyn nhw'n mynd yn rhy oer neu'n rhy boeth a beth maen nhw'n ei wneud am y peth. • Yn union fel ni, mae angen tymheredd addas ar blanhigion er mwyn bod yn iach. Ni fyddant yn dechrau tyfu o hadau os nad ydynt mewn amgylchedd ar y tymheredd cywir. |
| <p>Sleid 9: Ffrwythau a llysiau Prydeinig</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Esboniwch fod angen tymereddau gwahanol ar wahanol blanhigion. Dyma pam y gallwn dyfu rhai ffrwythau a llysiau ym Mhrydain ond nid pob un ohonynt. Mae angen i ffrwythau trofannol, er enghraifft, fod mewn amgylchedd llawer cynhesach er mwyn tyfu a bod yn iach. • Esboniwch fod bwyta ffrwythau a llysiau sy'n cael eu tyfu ym Mhrydain yn un ffordd y gallwn ni ofalu am yr amgylchedd oherwydd ei fod yn lleihau pa mor bell y mae'n rhaid i'r bwyd deithio i gyrraedd ein platau. Mae hyn yn lleihau'r angen am gludiant, gan leihau llygredd aer. |
| <p>Sleid 10: Sut ydyn ni'n gwneud pizza?</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Esboniwch ein bod ni'n mynd i ddefnyddio ein dysgu newydd i dyfu ein cynhwysion ein hunain ar gyfer ein busnes pizzeria. • Gofynnwch i'r plant a ydyn nhw'n gwybod am unrhyw un o'r cynhwysion y mae angen i ni eu tyfu i wneud pizza. |
| <p>Sleid 11: Y gwaelod</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Esboniwch fod sylfaen pizza wedi'i wneud o fath o fara. Gofynnwch i'r plant a ydyn nhw'n gwybod am unrhyw un o gynhwysion bara. • Blawd yw prif gynhwysyn bara. Gallwn wneud blawd o wenith. • Mae gwenith yn amrywiaeth o wair. Mae ffermwyr yn hau hadau gwenith i dyfu planhigion gwenith. Pan fydd y gwenith yn barod, caiff grawn y gwenith ei dynnu oddi ar y coesyn a'i falu i wneud blawd. • Yr enw ar y rhan o'r planhigyn gwenith nad ydyn ni'n ei fwyta yw'r coesyn a gellir troi hwn yn wellt a'i ddefnyddio trwy roi o dan anifeiliaid iddynt gysgu arno. • Esboniwch y bydd y plant yn tyfu eu planhigyn gwenith eu hunain. |

| | |
|---|---|
| <p>Sleid 12: Y saws</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Gofynnwch i'r plant a ydyn nhw'n gwybod am unrhyw un o'r cynhwysion mewn saws pizza. • Esboniwch y gellir gwneud saws pizza gan ddefnyddio tomatos a dail basil a gallwn ni dyfu'r rhain o hadau. |
| <p>Sleid 13: Topins</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Gofynnwch i'r plant beth yw eu hoff dopins pizza ac arwain sgwrs am ble mae pob un yn dod. • Esboniwch y byddan nhw'n tyfu roced a nionod gwanwyn fel topins ond byddan nhw'n gallu defnyddio topins eraill na allwn ni eu tyfu hefyd. |
| <p>Sleid 14: Caws</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Y cynhwysyn hanfodol olaf y byddant yn ei ddefnyddio ar gyfer eu pizzas yw caws. • Mae caws yn gynnyrch llaeth sy'n golygu ei fod yn cael ei wneud gan ddefnyddio llaeth. • Gofynnwch i'r plant a allan nhw gofio o ble mae llaeth yn dod ac egluro ei fod yn dod o fuchod godro. |
| <p>Sleid 15: Cymhwyso dysgu</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Modelwch sut i blannu pob un o'r hadau cynhwysyn ac eglurwch fod planhigyn newydd ym mhob un yn aros i egino. • Modelwch sut i fesur dŵr yn gywir a chytuno ar gyfaint safonol o ddŵr a roddir i bob hedyn. • Trafodwch y lle gorau yn yr ystafell ddosbarth i gadw'r planhigion i'w helpu i dyfu. |
| <p>Gweithgaredd ymarferol: Plannu hadau</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Gofynnwch i'r plant blannu eu hadau mewn potiau bach wedi'u labelu. • Llywiwch drafodaeth am y dewis o ddeunydd pot a pha rai fyddai'n well i'r amgylchedd. • Gan ddefnyddio iPads, fe allech chi ofyn i'r plant dynnu lluniau o'r camau a gymerwyd wrth blannu eu hadau. Yna gallen nhw ddefnyddio ap Shadow Puppet Edu iPad i greu fideo fer gyda'r ffotograffau hyn yn eu trefn ac adrodd esboniad o'r cyfarwyddiadau ar sut i dyfu eich cynhwysion pizza eich hun. |
| <p>Sleid 16: Gofalu am ein cynhwysion</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Llywiwch drafodaeth am sut y byddwn yn defnyddio ein dysgu am yr hyn sydd ei angen ar blanhigion er mwyn gofalu am iechyd a thwf ein planhigion a pha mor bwysig yw hi bod ffermwyr, fel perchnogion busnes, yn gwneud hyn. |
| <p>Sleid 17: Y ras gynhwysion fawreddog</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Esboniwch y bydd y plant yn cadw dyddiadur arsylwi i gofnodi pa rai o'u cynhwysion sy'n tyfu gyflymaf. • Modelwch sut i fesur eu planhigion yn gywir a gofynnwch i'r plant ychwanegu uchder eu planhigion at eu dyddiaduron arsylwi yn rheolaidd. • Gofynnwch iddyn nhw ragfynegi pa gynhwysyn maen nhw'n meddwl fydd yn 'ennill y ras' ac yn tyfu gyflymaf. • Pan fydd y planhigion yn cyrraedd uchder cytunedig, gofynnwch i'r plant ddisgrifio'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu a pha gynhwysyn sy'n tyfu gyflymaf. |

Dolenni i'r Cwricwlwm Cenedlaethol

| Maes | Pwnc | Amcan |
|----------------------|---------------------|--|
| Gwyddoniaeth | Planhigion | <ul style="list-style-type: none">• Arsylwi a disgrifio sut mae hadau a bylbiau'n tyfu i fod yn blanhigion aeddfed.• Darganfod a disgrifio sut mae planhigion angen dŵr, golau a thymheredd addas i dyfu ac i gadw'n iach. |
| | Gweithio'n wyddonol | <ul style="list-style-type: none">• Gofyn cwestiynau syml a chydabod y gellir eu hateb mewn gwahanol ffyrdd.• Arsylwi'n agos, defnyddio offer syml. |
| Dylunio & Thechnoleg | Coginio a maeth | <ul style="list-style-type: none">• Deall o ble mae bwyd yn dod |
| Mathemateg | Mesur | <ul style="list-style-type: none">• Dewis a defnyddio unedau safonol priodol i amcangyfrif a mesur hyd/uchder i unrhyw gyfeiriad (m/cm); màs (kg/g); tymheredd ($^{\circ}$ C); cynhwysedd (litr/ml) i'r uned briodol agosaf, gan ddefnyddio pren mesur, graddfeydd, thermomedrau a llestri mesur. |